**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2012 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cyng. A M Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng. W I Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. E A Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); Rh W Williams (Adran Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau); S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau); A Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru); V DeZouche (KPMG).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Cyng. A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 CHWEFROR 2012

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Dyma'r materion a oedd yn codi o'r cofnodion:

3.2 5.11 – Peiriant Ysgol ac Esgynlawr – Rhoddodd y PSTC Claydon y diweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa o ran y peiriannau ysgol ac esgynlawr. Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod i fabwysiadu'r safon cyrraedd o 30 munud ar gyfer peiriannau ysgol ac esgynlawr, roedd y pedwerydd peiriant wedi ei dynnu o wasanaeth ar ddiwedd ei oes weithredol ym mis Mawrth 2012, a'r tri pheiriant sydd ar ôl wedi eu hadleoli ym Mangor, y Rhyl a Wrecsam.

3.3 7.9 – Iawndal yn ôl disgresiwn am derfynu cyflogaeth yn gynnar – rhoddodd y PSTC Simmons wybod i'r Aelodau fod y swyddogion wedi ceisio cyngor cyfreithiol yn dilyn cwestiwn a gafodd ei godi yn y cyfarfod cynt ynglŷn â phwerau'r Awdurdod i sefydlu cynllun o'r fath. Mae'r Swyddogion yn parhau i weithio'u ffordd trwy'r cyngor hwn, ac mae'r gweithwyr wedi cael gwybod beth yw'r datblygiadau diweddaraf. Tynnodd y Prif Swyddog Tân sylw'r Aelodau at baragraff 7.8 o'r cofnodion a oedd yn dweud bod diswyddo yn opsiwn y byddai'n well gan bawb ei osgoi, ond oherwydd yr amgylchiadau, ni ellid ei ddiystyru.

3.4 9.6 – Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2012 – cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 ymlaen wedi cael ei gyhoeddi, a bod yr Awdurdod bellach yn gweithio yn ôl y fframwaith hwnnw.

3.5 11.4 – Y cynnig i brynu Adeilad Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub – rhoddodd y DBST wybod i'r Aelodau fod yr Awdurdod wedi cymeradwyo prynu adeilad y Pencadlys gan y byddai'n fwy cost-effeithiol prynu'r ased na thalu rhent. Roedd y pris wedi gostwng eto ar ôl negodi â'r gwerthwr, ac mae'r mater yn nwylo'r cyfreithwyr erbyn hyn.

4 YR AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL

4.1 Cyflwynodd Ms V DeZouche o KPMG yr amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol blynyddol. Mae'r ddogfen yn nodi'r gwaith archwilio sydd i'w gynnal er mwyn gallu rhoi barn ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod am 2011-12.

4.2 Dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi penodi KPMG i gyflawni'r gwaith hwn ar gyfer yr Awdurdod. Rhoddodd Ms DeZouche wybod i'r Aelodau fod y broses archwilio yn mynd rhagddi, a bod popeth yn mynd ymlaen yn ddidrafferth.

4.3 Holodd y Cyng. E A Jones sut y penderfynir ar gost y gwaith archwilio. Cadarnhawyd mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gosod y pris, a bod 5% o ostyngiad yn y ffi o'i chymharu â ffi 2010-11.

4.4 **PENDERFYNWYD nodi'r Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol.**

5 Y RHAGLEN REOLEIDDIO AR GYFER ARCHWILIO PERFFORMIAD 2012-13

5.1 Cyflwynwyd y Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13 gan Mr A Bruce o Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y ddogfen yn nodi'r gwaith i'w wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012-13. Mae'r meysydd gwaith yn cynnwys edrych ar y prif ddangosyddion perfformiad, cydweithio, ac adolygu'r astudiaethau gwella.

5.2 I ateb cwestiwn am ymwybyddiaeth Swyddfa Archwilio Cymru o'r hyn a wneir gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym maes cydweithio, cadarhaodd Mr Bruce ei fod yn ymwybodol iawn o waith cydweithredol yr Awdurdod hyd yn hyn.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13.**

6 CYFLWYNIAD ARIANNOL

6.1 Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân gyflwyniad ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Cafodd yr Aelodau wybod am y materion canlynol:

6.2 Mae gan yr Awdurdod gyllideb refeniw gwerth £32 miliwn, a chyllideb cyfalaf yn ogystal â chyllid grantiau penodol a dderbynir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gyllideb refeniw wedi cael ei rhewi ar £32 miliwn, sef rhan o'r cynllun ariannol tair blynedd y cytunwyd arno yn Rhagfyr 2010. Cafodd dros £800,000 o arbedion eu gwneud yn y flwyddyn gyntaf (2011-12), ac mae'r Awdurdod yn mynd i gyrraedd y nod o arbed swm tebyg yn yr ail flwyddyn hon o'r cynllun tair blynedd.

6.3 Mae'r Awdurdod wedi edrych ar bob maes gwariant, a bydd angen i Weithgor y Cynllun Gwella chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o wneud arbedion yn y tair blynedd nesaf. Sicrhawyd yr arbedion ar gyfer y flwyddyn gyfredol trwy gyflwyno ffordd fwy hyblyg o weithio ar system y ddyletswydd amser cyflawn. Roedd y Cyng. E A Jones yn croesawu'r ffordd hyblyg o weithio gan ei bod, oherwydd profiad blaenorol, wedi gweld hynny'n llesol i staff a sefydliadau.

6.4 Bydd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol sydd wedi ei sefydlu yn galluogi'r tri ATA yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i greu rhaglen fwy strwythuredig o gydweithio, gyda'r bwriad i sicrhau arbedion yn y tri ATA yng Nghymru.

6.5 Mae'r Awdurdod yn Awdurdod sydd â'r pwerau i godi arian, ac mae disgwyl i'r awdurdodau cyfansoddol dalu'r swm y gofynnir amdano gan yr Awdurdod, sef swm sydd fel arfer yn is na 2% o gyllideb yr awdurdod cyfansoddol. Hyd yn hyn, mae'r Awdurdod wedi cael perthynas dda gyda'r awdurdodau cyfansoddol, a'r broses o godi'r arian yn cael ei chynnal gyda phob ochr yn cydweithio. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa y byddai'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau ar gyllideb yr ATA a fydd er lles pennaf yr ATA ac nid eu hawdurdodau cyfansoddol.

6.6 Rhoddodd y Trysorydd safbwynt cenedlaethol, ac esbonio y gallai'r setliadau ariannol gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol fod hyd yn oed yn galetach nag y buont hyd yn hyn.

6.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 AELODAETH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

7.1 Gwahoddwyd yr Aelodau i gytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella (CG).

7.2 Mae'r Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig osod amcanion gwella iddynt eu hunain, ac i ymgynghori'n eang ar ffyrdd i gyflawni eu dyletswyddau gwella. Mae'r Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau hynny gyhoeddi'r CG y maent wedi cytuno arno cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

7.3 Bu gweithgor gan yr Awdurdod ers 2003, a hynny i ddiben datblygu cynlluniau yn unol â'r gofynion cynllunio sydd mewn bodolaeth ar y pryd, ac mae hyn wedi dod yn rhan annatod o broses y gyllideb a chynllunio. Oherwydd pwysigrwydd y gwaith hwn, argymhellir mai aelodaeth lawn y Panel Gweithredol a ddylai fod yn aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella.

7.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cytuno bod holl aelodau'r Panel Gweithredol yn dod yn aelodau o Weithgor y CG;**

**(ii) nodi dyddiadau cyfarfodydd Gweithgor y CG.**

8 AMCANION GWELLA 2012-13

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau ailddatgan, ar gyfer y flwyddyn gyfredol (sef 2012-13), yr Amcanion Gwella yr oedd yr Awdurdod wedi eu cyhoeddi.

8.2 Esboniodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol y byddai ailddatgan dau o'r wyth amcan, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr wyth, yn ei gwneud yn haws canolbwyntio a chyflwyno neges gliriach am feysydd blaenoriaeth pwysicaf yr Awdurdod. Byddai'r chwe amcan arall yn cael eu hymgorffori o fewn cynlluniau gweithredu adrannol i'w gwireddu fel y cynlluniwyd, gan gwrdd â dyletswydd gyffredinol yr Awdurdod i wella.

8.3 Byddai'r amcanion eu hunain yn parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau, gyda'r meini prawf mesur (dangosyddion cyflawniad llwyddiannus) wedi eu mynegi'n glir. Nodwyd mai cadarnhaol oedd ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i'r posibilrwydd o fabwysiadu'r dull hwn.

8.4 Dywedodd y Clerc fod hwn yn ddull da, a'i bod yn ddefnyddiol ystyried yr amcanion fel prif amcanion ac amcanion eilaidd. Awgrymodd newid geiriad amcan 2 (r) i ddweud '… er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol'.

8.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig i ailddatgan wyth amcan gwella yr Awdurdod, a chytuno ar yr amcan a ailddatganwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol (2012-13) fel a ganlyn:**

**AMC 1(ail)** **Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.**

**AMC 2(ail)** **Ceisio ffyrdd i leihau'r gost gyffredinol o redeg y Gwasanaeth bob blwyddyn, a hynny er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol.**

9 AMSERLEN AR GYFER DATBLYGU'R CYNLLUN GWELLA

9.1 Gwahoddwyd yr Aelodau i gytuno ar amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi Cynllun Gwella yr Awdurdod ar gyfer 2013-14.

9.2 Er mwyn ateb gofynion Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012 mewn perthynas â chyhoeddi Cynllun Gweithredu erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, mae angen cwblhau nifer o gamau datblygu a gwneud penderfyniadau ar yr adeg cywir.

9.3 Er mwyn cael y cynghorau i fod yn fwy o ran o'r broses ymgynghori, awgrymodd y Clerc y gallai'r Aelodau ystyried gwahodd y swyddogion i ddod i gyfarfod o'r cyngor i drafod yr ymgyngoriad, a hefyd y gallai'r ymgynghoriad ddod yn rhan o agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi a chymeradwyo'r amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu Cynllun Gwella yr Awdurdod ar gyfer 2013-14 fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| 16 Gorffennaf 2012 | Y Panel Gweithredol yn cytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella (CG). |
| 23 Gorffennaf 2012 | Cyfarfod cyntaf Gweithgor y CG i ddatblygu amcanion 2013-14. |
| 13 Awst 2012 | Ail gyfarfod Gweithgor y GC i ddatblygu amcanion 2013-14. |
| 17 Medi 2012 | Y Panel Gweithredol yn ystyried argymhellion Gweithgor y CG o ran amcanion 2013-14. |
| 15 Hydref 2012 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystyried argymhellion y Panel Gweithredol, ac yn cymeradwyo'r Amcanion Gwella drafft i ddiben ymgynghoriad cyhoeddus.<br>Y cyfnod ymgynghori i'w benderfynu - 10 wythnos = 24/12/12. 12 wythnos = 7/1/13. |
| 19 Tachwedd 2012 | Y Panel Gweithredol yn ystyried cyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14. |
| 17 Rhagfyr 2012 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystyried cyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14. |
| 4 Chwefror 2013 | Y Panel Gweithredol yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cwblhau'r CG yn derfynol yng nghyd-destun y gyllideb ar gyfer 2013-14, a hynny i'w argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn. |
| 18 Mawrth 2013 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn rhoi cymeradwyaeth derfynol i'r CG i'w gyhoeddi cyn 31 Mawrth 2013. |

10 DATBLYGU'R SAFON YMATEB

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wneir wrth ddatblygu Safon Ymateb i Danau mewn Anheddau.

10.2 Esboniodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol pa wahanol safonau cenedlaethol a fu yn eu lle ers 1944. Yn dilyn datganoli, sefydlwyd safon gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru yn 2005 ar gyfer cyrraedd tanau mewn cartrefi, ac yn 2006 cynhaliwyd adolygiad o'r Safon a oedd wedi cael ei sefydlu. Roedd yr adolygiad yn cydnabod gwahanol broffiliau'r tri ATA yng Nghymru, ac mai amhriodol fyddai cael safon cenedlaethol ar gyfer Cymru. Er enghraifft, ni fyddai modd, mewn ardaloedd gwledig mewn gwahanol rannau o Gymru, gyrraedd safon a oedd yn addas ar gyfer ardal ddinesig fel Caerdydd. Felly, roedd yn ofynnol i bob ATA ddatblygu ac ymgynghori'n lleol ar ei feini prawf ei hun ar gyfer ymateb i danau mewn anheddau, a hynny'n ddibynnol ar egwyddorion arweiniol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

10.3 Yn dilyn y Cylchlythyr Tân ac Achub a gyhoeddwyd fis Mawrth 2012, mae disgwyl erbyn hyn i bob ATA ddatblygu ac ymgynghori ar ei feini prawf ymateb lleol, a'u cyhoeddi yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2013-14. Gyda'i gilydd, mae'r tri ATA wedi llunio 'Siarter Ymateb Cymru gyfan i Danau mewn Anheddau' i'w ystyried gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

10.4 Mae'r Siarter ddrafft yn cymryd i ystyriaeth y ffaith fod gofyn i ATA lunio meini prawf ymateb lleol, ac ymgynghori arnynt, a hynny er mwyn sicrhau lefel o gysondeb trwy Gymru. Os caiff ei mabwysiadu, bydd y Siarter yn rhoi darlun clir i drigolion a deiliaid tai yng Nghymru o'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan eu Gwasanaeth Tân ac Achub, ond heb rwystro gallu'r ATAau i benderfynu beth sy'n briodol ar gyfer eu hardaloedd eu hunain.

10.5 Cadarnawyd y gellid gosod safon amrywiol ar draws y Gogledd; y gofyniad pwysig yw fod y safon yn ystyrlon. Hefyd, cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân y byddai'r Gwasanaeth yn parhau i anfon yr adnodd agosaf er mwyn cyrraedd digwyddiadau cyn gynted ag y bo modd ac mor ddiogel ag y bo modd. Roedd y Cyng. E A Jones yn teimlo ei bod yn bwysig cydnabod y dull a ddilynid ac mai ffordd o sicrhau cysondeb ydoedd ond gan alluogi pob Awdurdod i gyrraedd ei safon diogelwch ei hun.

10.6 Roedd Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr ATAau yng Nghymru wedi cyfarfod â'r Gweinidog ar 27 Mehefin, ac roedd ganddo ddiddordeb yn natblygiad y Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar gydweithio, ond bydd pob Awdurdod yn cadw ei hunaniaeth ei hun. Byddai cyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 17 Mehefin. Cadarnhawyd y byddai adroddiad o bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i bob cyfarfod o'r Awdurdod.

10.7 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wneir a'r camau arfaethedig i ddatblygu Safon Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer ATA Gogledd Cymru.**